

Cofnodion



Pwyllgor Archwilio

Dyddiad: Dydd Iau, 27 Ionawr 2022

Amser: 5.00 pm

Lleoliad: Mr J Baker (Cadeirydd) Cyngorwyr H Thomas, G Giles, P Hourahine and J Jordan

Pamela Tasker (Governance Officers)

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cyngorwyr M Whitcutt, R White and R Mogford

1 Datganiadau o ddiddordeb

Dim.

2 Cofnodion y Cyfarfod Diweddfaf

3 Gofrestr Risg Corfforaethol (Chwarter 2)

Mae Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor yn monitro'r risgiau hynny a allai atal y Cyngor rhag cyflawni ei Gynllun Corfforaethol neu ddarparu gwasanaethau i'w gymunedau a defnyddwyr gwasanaethau yng Nghasnewydd.

Ailadroddodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor nad eu rôl hwy oedd cwestiynu sgôr y risgiau ond y broses o amgylch y risgiau.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor gan y Cyfarwyddwr Strategol – Trawsnewid a'r Ganolfan Gorfforaethol.

Prif Bwyntiau:

Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol, wrth edrych yn ôl i'r cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2021, fod rhai risgiau sylweddol posibl yr oedd y sefydliad yn ymdrin â hwy bryd hynny. Un o'r rhain oedd y cyfnod ar ôl y cyfnod pontio o'r UE a Brexit a'r goblygiadau sy'n gysylltiedig â hynny, yn ogystal â risg yr amrywiolyn Delta oherwydd dechrau'r tymor ysgol newydd.

- O fewn y cynlluniau gwasanaeth, roedd 46 o risgiau penodol ar draws ei wyth maes gwasanaeth gyda rhai newidiadau, gyda risg gaeedig yn gysylltiedig â'r cynllun datblygu strategol o ganlyniad i drefniadau pwyllgor corfforaethol. Roedd risg newydd yn gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.
- Ar gyfer y Gofrestr Risg Gorfforaethol, roedd 18 o risgiau, gyda'r sefyllfa o ran COVID-19 yn gwaethygu ac yn gwella mewn perthynas â chyfraddau heintiau ac ati.
- Roedd pwysau ar wasanaethau cymunedol hefyd yn dibynnu ar y risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 a sut roedd hynny'n cael ei reoli.

- Mwy o risg gyda Brexit a'r prinder gyrwyr cerbydau nwyddau trwm a barhaodd i Chwarter 3.
- Roedd gostyngiad mewn diogelu yn risg oherwydd hunanasesiad y sefydliad a gynhaliwyd.

Cwestiynau:

Holodd y Cynghorydd Hourahine am y risg yn erbyn Brexit a ph'un a oedd yn arf di-fin i ddiffinio lle'r oedd y risgiau mewn gwirionedd gan fod anhawster recriwtio gweithwyr gofal ar gyfer cartrefi gofal a nodwyd y ceisiwyd recriwtio yn y gymuned.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Strategol, y tu allan i'r cyfnod hwn, ond oherwydd yr amrywiolyn Omicron a'r pwysau ar ofal cymdeithasol, fod ystod o ymyriadau i reoli'r risg barhaus hon. Nid oedd hyn yn ymwneud â Brexit ond, o fewn pob cynllun gwasanaeth, roedd risgiau a gwaith cynllunio'r gweithlu lle bu llawer o waith yn y sefydliad ar hyn. Roedd hwn yn edrych ar y gweithlu presennol a chadw'r gweithlu yn y dyfodol, eu hyfforddi a gweithgareddau ar eu cyfer, ac ym mhob cynllun gwasanaeth roedd adran ar sut i fynd i'r afael â'r problemau hynny.

Dywedodd y Cynghorydd Giles fod materion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ynghyd â chyllidebau ysgolion yn mynd rhagddynt ond nad oeddent mor ddifrifol ag y tybiwyd unwaith, a oedd yn drawiadol. Diolchodd y Cynghorydd Giles i'r awdurdod a'r holl ysgolion am eu gwaith caled. Gofynnodd y Cynghorydd Giles am ddiweddariad ar ysgolion a materion ADY ac AAA a gwnaeth sylwadau ar y darlun ar ôl COVID-19 a sut olwg fyddai arno gan fod rhai materion ariannol ysgolion wedi'u lleddfu rhywfaint.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Strategol fod pwysau costau cyllid ysgolion yn fater parhaus, ac roedd hwn yn ddarn enfawr o waith dan arweiniad cydweithwyr yn yr adrannau Cyllid ac Addysg a oedd yn gweithio gydag ysgolion i liniaru pwysau cyllidebol, a fu'n llwyddiannus iawn hyd yn hyn. Roedd hon yn ymdrech enfawr gan swyddogion ac ysgolion. Mewn perthynas â'r heriau AAA ac ADY, roedd hyn yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth newydd gyda gofynion newydd a heriau gweithredol.

Roedd y sefyllfa gyllidebol gyffredinol ar gyfer ysgolion yn ddiddorol oherwydd y pwysau cynyddol mewn ysgolion ac roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu cronfa galedi i gefnogi hyn. Cafwyd yr effaith fwyaf trwy gydweithio rhwng cydweithwyr yn yr adrannau Cyllid ac Addysg.

Gofynnodd y Cynghorydd Giles p'un a oedd pryderon ynghylch colli'r taliad ychwanegol eleni a beth fyddai'n digwydd o ganlyniad i hyn.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod dod â'r gronfa galedi i ben ar 31 Mawrth 2022 yn bryder ond bod y ffaith fod y setliadau'n rhai da i lywodraethau lleol wedi'i liniaru. Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Cabinet a'r Arweinydd i lunio cynllun lliniaru risg i reoli'r gost anochel oedd yn y system yn ogystal â cholli incwm gan na fydd normalrwydd yn dychwelyd ar 1 Ebrill. Byddai angen iddo fod yn ddigonol ac yn gadarn ac efallai y bydd rhai newidiadau parhaol y flwyddyn nesaf, ond roedd yn rhy gynnar i ddweud ar hyn o bryd.

Nododd y Cadeirydd fod hwn yn dangos 20 fel sgôr risg gynhenid ar dudalen 32 o'r pecyn mewn perthynas â chlefyd lladdwr yr ynn. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd am gwestiynu'r sgôr ond, gyda chymaint o goed yn cael eu torri i lawr, dylid bod newid cyfeiriad yn y sgôr.

Cadarnhaodd y Partner Busnes Perfformiad a Risg y byddai'r sgôr yn gostwng dros y chwarteri nesaf ac y byddai hyn yn cael ei fonitro.

Gwnaeth y Cadeirydd sylwadau ar dudalen 42, lle roedd y sgôr risg gynhenid yn dangos sgôr o 25 ond roedd y matrics yn dangos sgôr o 20, a ph'un a oedd y dot yn y lle iawn.

Cadarnhaodd y Partner Busnes Perfformiad a Risg fod y sgôr yn cadarnhau bod y cyfeiriad teithio yn gostwng.

Cytunwyd:

Nododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yr adroddiad.

Bwriad yr adroddiad hwn oedd casglu barn ac ymatebion y Pwyllgor i Strategaethau Rheoli Cyfalaf a Thrysorlys drafft y Cyngor. Byddai'r safbwyntiau ac ymatebion hyn wedyn yn cael eu hadrodd i'r Cabinet a'r Cyngor, er mwyn llywio eu hystyriaethau o'r dogfennau hyn.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r pwyllgor gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol, ac eglurwyd mai hon oedd blwyddyn olaf y Rhaglen Strategaeth Gyfalaf ac y byddai adolygiad mwy sylfaenol y flwyddyn nesaf wrth i'r rhaglen newydd gael ei datblygu.

Prif Bwyntiau:

- Ychwanegwyd dwy flynedd ychwanegol i gwmpasu cynlluniau a oedd yn ymestyn y tu hwnt i 2023, megis rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif, a oedd yn rhaglen amflwyddyn a oedd yn ymestyn y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol nesaf.
- Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried a rhoi sylwadau arno ac yna i'r Cabinet a'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo, sef y broses a ddilynwyd.
- Roedd hon yn ddogfen hirdymor yn cwmpasu cyfnod o ddeng mlynedd a thu hwnt mewn rhai achosion ac roedd yn ofynnol i'r tîm ategu'r holl ystyriaethau â'r tri phrif amcan, sef fforddiadwyedd, darbodusrwydd a chynaliadwyedd, ac roeddent yn hollbwysig o fewn y penderfyniadau a gymerwyd ar y cyd â'r adroddiad hwn.
- Yn sylwadau'r Pennaeth Cyllid, nodwyd mai un o'r prif amcanion oedd cyfyngu ar dwf a gwariant cyfalaf a gyllidir gan ddyled, e.e. gwariant a ariennir drwy fenthycyca. Byddai gallu benthycyca mewnol yn lleihau dros amser ac, o gofio'r ffordd yr oedd y polisi darpariaeth isafswm refeniw yn gweithio, byddai'r taliadau'n cynyddu dros amser.
- Ar dudalen 3, roedd dwy adran a oedd yn rhoi trosolwg o'r ddwy strategaeth, beth oedd eu prif ddiben, a sut yr oeddent wedi'u nodi yn y Cod Materion Ariannol.
- O ran y prif uchafbwyntiau, cyfanswm y saith mlynedd oedd £288 miliwn, a oedd yn cynnwys £2.4 miliwn o hyblygrwydd benthycyca heb ei ymrwymo ar hyn o bryd, ac yn 2022-2023 roeddem yn edrych ar wariant o fwy na £100 miliwn, a oedd yn her sylweddol i'r Cyngor ei chyflawni.
- Rhagwelwyd y byddai £77.5 miliwn yn cael ei ariannu drwy fenthycyca ac roedd £43.1 miliwn i'w wario o hyd.
- O fewn yr adroddiad, o ran y dangosyddion darbodus – y ddau rai hollbwysig oedd y terfynau benthycyca allanol a'r terfyn awdurdodedig yn y ffin weithredol. Roeddent yn deillio o'r Rhaglen Gyfalaf ac yn £271 miliwn a £192 miliwn yn y drefn honno, heb gynnwys Mentrau Cyllid Preifat a phrydlesi. Roedd hyn yn adlewyrchu cynnydd ar y terfynau a oedd ar waith ar hyn o bryd yn y flwyddyn ariannol hon ac mae hynny'n sail i'n sefyllfa fel benthyciwr net wrth symud ymlaen.
- Roedd Tabl 3 yn cynnwys y costau cyllido cyfalaf yr ydym wedi cyllidebu ar eu cyfer o fewn cyllideb refeniw'r Cyngor, a oedd yn dal yn gymharol uchel ac a gafodd eu lleihau yn ôl cyfran o gyllideb refeniw gyffredinol y Cyngor wrth symud ymlaen. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y setliad cadarnhaol sydd wedi'i dderbyn eleni, a'r setliadau dangosol yr ydym wedi'u cael o'r ddwy flynedd nesaf, ond yn y pen draw dangosodd yr effaith yn y pen draw a gafodd gwariant cyfalaf a ariennir gan ddyled ar gyllid awdurdod.
- Roedd angen i'r Cyngor ddatblygu rhaglen gyfalaf newydd lle na fyddai'r gofyniad cyllid cyfalaf yn tyfu'n gyffredinol.
- Roedd dwy senario fel rhan o'r gwaith hwn, un gyda gwariant cronfa dyledion benthycyca blynyddol o **£5.5 miliwn** y flwyddyn ac un senario o **£7.5 miliwn** y flwyddyn, a dangosodd y ddau eu bod naill ai'n lleihau neu'n sefydlogi'r gofyniad cyllid cyfalaf.

- Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r ddwy senario hyn, byddai'r gost cyllid cyfalaf yn parhau i godi am y rhesymau a nodwyd eisoes.
- Rhan o ddatblygu'r rhaglen newydd fyddai adolygu'r strwythur llywodraethu ynghylch sut mae cynlluniau'n cael eu hychwanegu at y rhaglenni, gan ei gwneud yn fwy cadarn a chyfyngu ar faint o lithriant sy'n cael ei adrodd.
- O ran y Strategaeth Gyfalaf, bu newidiadau i'r Cod Materion Ariannol a Chod Rheoli'r Trysorlys, ac roedd y ddau yn cael eu cwblhau a'u cyhoeddi ar hyn o bryd. Roedd un gofyniad penodol mewn perthynas â'r Cod Materion Ariannol, sef y byddai awdurdodau lleol bellach yn cael eu hatal rhag benthycu os mai unig nod y benthycu hwnnw yw sicrhau arenillion o hynny. Nid oedd unrhyw effaith wirioneddol ar Gasnewydd ac nid oedd unrhyw gynlluniau o'r natur honno ar hyn o bryd, ond, pe bai cynlluniau, ni fyddai modd bwrw ymlaen â hwy.
- Roedd adrannau yn yr adroddiad ar y strategaeth fenthycu a'r strategaeth fuddsoddi lle mai'r gofyniad benthycu net dros y tymor canolig oedd y strategaeth a ffeirir i wneud y mwyaf o fenthycu mewnol, gan ohirio'r angen i ymgymryd â benthycu gwirioneddol cyhyd â phosibl, ond, lle bo'n berthnasol, byddai benthycu cyn bod angen yn cael ei ystyried, gyda'r nod o sicrhau cyfraddau llog isel a chydbwysu hynny yn erbyn y risg o fenthycu'n rhy gynnar a mynd i gostau llog diangen. Roedd angen i ni hefyd ystyried y cyfraddau llog presennol ar fenthycu tymor byr, a oedd yn isel ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau portffolio cytbwys.
- O ran buddsoddiadau, roedd angen cadw balans buddsoddi o £10 miliwn i gadw ein statws fel cleient proffesiynol, gyda'r nod cyffredinol o daro cydbwysedd rhwng risg a gwobr, gan roi ystyriaeth i arallgyfeirio buddsoddiadau i geisio sicrhau ein bod yn cyflawni'r cydbwysedd hwnnw.

Soniodd y Pennaeth Cyllid fod dangosydd lleol yn cael ei gyflwyno'r flwyddyn nesaf, sef gwariant cyfalaf wedi'i ariannu gan ddyledion, a osodwyd ar £2.4 miliwn i fynd â ni at ddiwedd y Rhaglen Gyfalaf. Byddai hyn yn golygu terfyn y flwyddyn nesaf ar ymrwymadau benthycu newydd. O ran y rhaglen newydd, y bwriad oedd gosod ymrwymadau'r flwyddyn nesaf, y modelwyd dwy senario ar ei chyfer a oedd yn sefydlogi refeniw benthycu. Fodd bynnag, ni wnaethant sefydlogi costau refeniw, a fyddai'n parhau i gynyddu. Byddai terfynau'n cael eu gosod i sefydlogi'r gofyniad cyllid cyfalaf. Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd dwy senario o £5.5 miliwn y flwyddyn a £7.5 miliwn y flwyddyn a dywedodd y Pennaeth Cyllid mai ei fwriad oedd argymhell gosod terfyn ar gyfer cyfnod y rhaglen rhywle yn y maes hwnnw.

Cwestiynau:

Gofynnodd y Cynghorydd Hourahine am yr estyniad o ddwy flynedd ar y Rhaglen Gwariant Cyfalaf ac a ddigwyddodd hyn oherwydd bod hyn wedi'i gynllunio neu a oedd wedi digwydd oherwydd tanberfformiad o fewn y Cyngor yn y rhaglenni hyn.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid fod Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn rhedeg mewn cyfnod ychydig yn wahanol i Raglen Gyfalaf y Cyngor ei hun ond bu llithriant hefyd.

Teimlai'r Cynghorydd Hourahine fod angen mynd i'r afael â hyn trwy reoli rhaglenni yn dynnach.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y gwariant a gyllidebwyd o £100 miliwn a bod risg na fyddai hwn yn cael ei wario a'r ffaith fod dros y pump i saith mlynedd diwethaf bu tanwariant gennym bob amser o tua 20-30% yn ein Rhaglen Gyfalaf bob blwyddyn. Nododd y Cadeirydd, yn dilyn ymlaen o'r datganiad diwethaf, pe baem yn cael trafferth taro ein gwariant disgwylidiedig eto eleni, beth oedd yn digwydd gyda rheoli'r rhaglen ynghylch cost cyfalaf gan ei bod yn broblem barhaus a'i bod yn effeithio ar beth fyddai'r strategaeth ar gyfer y ddogfen hon.

Gofynnodd y Cadeirydd beth oedd y Cyngor yn ei wneud i gael gwell rheolaeth prosiect yn y maes hwn.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (RG) fod cydnabyddiaeth bod angen adolygiad o'r trefniadau llywodraethu a bod heriau o ran capasiti, niferoedd staff ac ati mewn rhai achosion a bod hon yn her a ystyriwyd ac a drafodwyd yn ddiweddar. Gyda'r gwaith sy'n cael ei wneud i ailstrwythuro'r tîm uwch-reolwyr a'r Bwrdd Gweithredol bellach yn ei le, roedd strwythurau cryfach o ran rheoli a goruchwylio'r Rhaglen Gyfalaf. Rhagwelwyd felly y byddai'r risg yn cael

ei lleihau wrth symud ymlaen gyda phroses gadarnach ar waith i geisio osgoi dull dalfan o roi cynlluniau yn y rhaglen, fel bod y cynlluniau'n barod ac yn gyflawnadwy, a'r proffil yn gywir ac yn realistig.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid fod y trefniadau llywodraethu yn cael eu hadolygu dros y darn cyfan ac ar draws yr awdurdod wrth i strwythurau rheoli gael eu llenwi. Roedd y Rhaglen Gyfalaf a'r ddarpariaeth yn rhan o'r adolygiad hwn a byddai angen eu cryfhau. Awgrymodd y Cadeirydd, pe byddai llithriant, byddai angen cyfeirio at y broblem capasiti yn y cyfrifon bryd hynny gan fod y llithriant yn cael ei gofnodi eto ac, o safbwynt y darllenwyr, roedd yn rhoi mwy o gyd-destun.

Dywedodd y Cadeirydd fod y papur yn ddogfen adweithiol yn hytrach na dogfen ragweithiol a oedd yn strategaeth ac yn ddull ariannu. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn teimlo y dylai strategaeth fod yn faint o ddyled yr ydym am ei chario. Er enghraifft, y terfyn awdurdodedig oedd tua'r £300 miliwn, sef yr uchafswm y gallem ei fenthycu. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn awgrymu i bob golwg ein bod am fod yn llai na £220 miliwn ond, ar y llaw arall, roedd ein Rhaglen Gyfalaf yn £100 miliwn felly dylai'r strategaeth fod yn dweud y gallem fynd i fyny at £220 miliwn ond, fel Cyngor, nid ydym eisiau mynd heibio beth bynnag oedd y lefel briodol. Felly, dywedodd y Cadeirydd y dylem fod yn llywio beth y dylid gosod y cynllun cyfalaf arno ac nid y ffordd arall.

Yn yr adroddiad ei hun, dywedodd y Cadeirydd fod ymholiad ganddo o ran beth oedd y frawddeg gyntaf ar dudalen 73, paragraff 12, yn ei olygu: "Dylid nodi bod y ddau derfyn a ddisgrifir uchod ond yn gosod terfyn damcaniaethol ar fenthycu y gellir ei wneud i ariannu gwariant cyfalaf newydd, os oes tystiolaeth o lithriant yn digwydd ar draws y rhaglen." Dywedodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol eu bod yn ceisio dweud bod y ffordd yr ydym yn cyfrifo'r terfyn awdurdodedig, a'r ffin weithredol ar hyn o bryd, yn seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf yr oeddent yn bwriadu ei chyflawni ond bod llithriant yn ddigwyddiad cyffredin, a gall fod yn arwyddocaol ar adegau. Oherwydd llithriant, ni chyflawnwyd y terfyn awdurdodedig, a theimlwyd bod llawer o ryddid ar gyfer benthycu ychwanegol a oedd yn uwch na'r rhaglen. Roedd angen mesur arall o reolaeth o ran benthycu a bod yr hyblygrwydd benthycu ynddo'i hun yn ddangosydd, felly, pe cynyddid y gwariant a gyllidir gan ddyledion, yna byddai angen cymeradwyo hyn ei hun.

Argymhellodd y Cadeirydd fod angen aralleirio'r paragraff hwn.

Nododd y Cynghorydd Giles ei bod yn drafodaeth ddiddorol a bod Gwariant Cyfalaf Cynllun B yn cael arian cyfatebol yn ei brofiad ef, a oedd yn achosi anawsterau mawr gan ei fod yn cael ei ariannu i'r hyn y gallwn ei fforddio. Nododd y Cynghorydd Giles fod datblygwyr yn ychwanegu costau mawr annisgwyl nad oedd cynllun bob amser wedi ei gynllunio ar eu cyfer. Diolchodd y Cynghorydd Giles i'r tîm am yr adroddiad.

Camau Gweithredu:

Y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol i ddiwygio tudalen 73, paragraff 12, yn unol â chyngor y Cadeirydd.

Cytunwyd:

Nododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yr adroddiad.

5 Gwersi a Ddysgwyd 2020/21

Bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o'r cyfarfod ymadael ag Archwilio Cymru, a oedd yn myfyrio ar broses archwilio Datganiad Cyfrifon 2020-21, a ph'un a ellid diwygio arferion er budd proses Datganiad Cyfrifon 2021-22.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol, a gadarnhaodd fod Datganiad Cyfrifon 2020/2021 wedi'i gymeradwyo ym mis Tachwedd 2021, ond y cydnabuwyd gwelliannau ac fe'u cywirwyd.

Adlewyrchwyd y newidiadau a wnaed yn y papurau gwaith sy'n mynd drwodd yn awtomatig i broses 2021-22.

- Canolbwyntiodd y cyfarfod archwilio ar yr hyn yr aeth yn dda a'r hyn y gellid ei wella, agweddau rhannu gwybodaeth, a sut y gallai'r tîm fodloni'r amserlenni archwilio statudol yn well. Roedd hyblygrwydd COVID-19 yn gwneud y cyfrifon yn fwy anodd, ond cydnabuwyd efallai na fydd yr hyblygrwydd hwnnw yn bodoli cyn bo hir.
- Mae gan archwilwyr ymrwymiadau amser ar gyfer archwiliadau eraill ac, o ganlyniad i'r cyfarfod archwilio, bu'r awdurdod lleol yn ystyried p'un a oedd bwriad i baratoi'r cyfrifon yn unol ag argaeledd archwilwyr neu i ymdrechu i'w cau o fewn amserlenni cynnar.
- Nodwyd yr oedi cyn cymeradwyo cronfeydd wrth gefn, a oedd yn ymwneud â COVID-19. Roedd y grant COVID-19 ei hun, a oedd yn llawer o arian, yn cynnwys tua £30 miliwn o gyllid i'w ddyrannu i wasanaethau penodol.
- Nodwyd bod hon yn broses archwilio dda a'i bod yn dda cael ein herio i fodloni'r terfyn amser ym mis Mai a'i bod yn synhwyrol gweithio i ganllawiau statudol.
- Roedd yn dîm bach ond yn wydn iawn o dan bwysau, a oedd yn risg yr oedd angen i'r Cyngor ei gwerthfawrogi.

Cwestiynau:

Dywedodd y Cynghorydd Hourahine, gan mai tîm bychan oedd hwn, pa argaeledd oedd ar gael yn y system gyllid gyfan i ddyrannu staff lle'r oedd eu hangen fwyaf.

Nododd y Pennaeth Cyllid mai darn technegol iawn o waith oedd hwn, a dywedodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol fod angen peth arbenigedd ar gyfer rhai pethau, megis cyflwyno dogfen 160 tudalen yn dilyn y safonau adrodd ariannol rhyngwladol.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol fod rhai tasgau cau yn cael eu rhannu yn y tîm ond, gyda thîm o bedwar, bod her a chapasiti cynhenid yn bresennol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod y tîm cyfrifeg cyfan i gyd yn gysylltiedig a bod tîm canolog a oedd yn dod â'r cyfan ynghyd gyda'r Pennaeth Cyllid Cynorthwyol, ynghyd ag un cyfrifydd cyfalaf a phartner busnes cyllid. Roedd y gwaith yn dechnegol iawn, ac nid oedd y lefel hon o wybodaeth ar gael i bawb ym maes cyfrifeg. Roedd pawb yn rhan o'r broses orffen. Roedd gwytnwch yn broblem, ac roedd hyn yn peri pryder, ond gwnaeth y tîm y gorau y gallent gyda'r adnoddau a oedd yno.

Cytunodd y Cadeirydd fod y broblem hon ym mhobman a nododd ei bod yn dda cael dogfen Gwersi a Ddysgwyl, a oedd yn wych i'w chael. Cytunodd y Cadeirydd fod angen mynd at y terfyn amser diwedd mis Mai a'i bod yn gywir cadw at hyn gan fod llai o risg o wneud hynny.

Cytunwyd:

Nododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yr adroddiad.

6 SO24 / Hepgor Rheolau Contract: Adroddiad chwarterol yn adolygu penderfyniadau brys y Cabinet / CM neu'n ildio RhSau Contract (Chwarter 3, Hydref i Ragfyr 2021

Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi manylion y penderfyniadau ar ddefnyddio Rheol Sefydlog 24 (penderyniadau a gymerwyd ar frys) neu Hepgor Rheolau Sefydlog Contractau ar gyfer y cyfnod uchod.

Wrth ystyried yr adroddiad hwn, atgoffwyd yr Aelodau nad oeddent yn cwestiynu rhinweddau'r penderfyniadau a wnaed ond eu bod yn canolbwyntio ar pam fod penderfyniadau'n cael eu gwneud fel rhai brys neu pam fod angen hepgor Rheolau Sefydlog Contractau.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Archwilydd Mewnol, a esboniodd fod hwn yn adroddiad rheolaidd i'r Pwyllgor a bod Rheol Sefydlog 24 yn caniatáu i Aelodau'r Cabinet neu'r Cabinet wneud penderfyniadau brys heb fynd drwy'r broses ymgynghori arferol.

Yn ystod y chwarter diwethaf, cyflwynwyd un adroddiad a oedd yn ymwneud â Rheol Sefydlog 24 ac roedd angen i'r Pwyllgor sicrhau eu hunain bod modd cyfiawnhau'r rheswm dros ddefnyddio Rheol Sefydlog 24 yn yr achos hwnnw, sef arwain at lywodraethu da.

Eglurodd y Prif Archwiliwr Mewnol mai ei rôl oedd adolygu'r rhestr o benderfyniadau a'r adroddiad a oedd wedi'i gynnwys yn y papurau a nodi'r rheswm dros y penderfyniad brys. Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol nad oedd y cyfiawnhad dros natur frys y penderfyniad yn amlwg nac wedi'i gofnodi yn yr adroddiad yn ei farn ef ac nad oedd amserlen wedi'i chynnwys o amgylch y gyllideb na'r opsiynau.

Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol wrth y Pwyllgor nad oedd yn argymhell galw'r Aelod Cabinet i'r Pwyllgor, ond byddai'n awgrymu bod y Pwyllgor yn ystyried gofyn i'r Aelod Cabinet ddarparu ymateb ysgrifenedig ynghylch pam ei bod yn briodol defnyddio Rheol Sefydlog 24 ar yr achlysur hwn.

Cytunodd y Cadeirydd â'r argymhelliad a dywedodd fod angen rhagor o wybodaeth.

Cytunwyd:

I'r Prif Archwilydd Mewnol ofyn i'r Aelod Cabinet ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i egluro'r defnydd o Reol Sefydlog 24.

7 Archwiliad Mewnol Anfoddfaol Barnau Archwilio (6 adroddiad misol)

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor gan y Prif Archwilydd Mewnol.

Roedd yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r farn a fynegwyd gan y tîm, ac roedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed o ran y farn anffafriol a gyhoeddwyd.

Prif Bwyntiau:

- Yn ystod 2018-19, cafodd 48 o farnau archwilio eu cyhoeddi; roedd deg yn Anfoddfaol ac un yn Ansicr.
- Yn ystod 2019-20, cafodd 32 o farnau archwilio eu cyhoeddi; roedd chwech yn Anfoddfaol ac nid oedd yr un yn Ansicr.
- Yn ystod 2020-21, cafodd 29 o farnau archwilio eu cyhoeddi; roedd un yn Anfoddfaol ac nid oedd yr un yn Ansicr.
- Yn ystod 2021-22 (hyd at 30-9-21), cafodd naw barn archwilio eu cyhoeddi; nid oedd yr un yn Anfoddfaol nac yn Ansicr.

Roedd hon yn ffordd addawol ymlaen gan fod nifer y safbwyntiau anffafriol yn lleihau. Gall Aelodau weld bod gwelliannau wedi'u gwneud a bod ymrwymiad i fynd ar drywydd unrhyw farn anffafriol ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y farn eilradd, a allai fod yn gadarnhaol neu'n negyddol.

- Mewn rhai achosion, cafwyd dwy farn anffafriol yn olynol ac yna mae'r Pwyllgor wedi galw'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol i mewn i herio'r unigolyn pam mai ychydig o gamau a gymerwyd ac i wneud y gwelliannau hynny.
- Yn 2015-16 (paragraff 6 yr adroddiad), cyhoeddwyd 34 o farnau archwilio a barnwyd bod wyth ohonynt yn *Anfoddfaol*; nodwyd un yn y crynodeb fel tabl gan fod y saith adroddiad blaenorol wedi bod yn destun camau dilynol a bod barnau mwy ffafriol wedi'u cyhoeddi ac wedi'u hadrodd yn briodol i'r Pwyllgor.
- Roedd Tabl 6 yn dangos y Fenter ar y Cyd – Newport Norse, a oedd yn Anfoddfaol rai blynyddoedd yn ôl. Bu rhywfaint o oedi wrth gael yr adroddiad hwn o ran gweithgarwch dilynol. Dechreuwyd gweithgarwch dilynol yn 2021,

parhaodd i mewn i 2022, a chyhoeddwyd barn newydd, yr adroddwyd ei bod yn fwy ffafriol, a byddai hon yn cael ei hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law.

- Yn 2016-17, cyhoeddwyd 35 o farnau archwilio; barnwyd bod pump yn Anfoddhaol, un yn Ansicr. Nid yw un adroddiad wedi bod yn destun camau dilynol eto. Roedd hwn yn fater i'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir ac mae'r pedwar adroddiad Anfoddhaol blaenorol ac un Ansicr wedi'u dilyn gan farn fwy ffafriol. Mae'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir a'r Tîm Digidol wedi ymgysylltu ag ymgynghorydd i nodi dadansoddiad o fylchau a byddai diweddariad yn cael ei roi i'r Pwyllgor maes o law.
- Nododd paragraff 8 y cyhoeddwyd 40 o farnau archwilio yn 2017-18; barnwyd bod chwech yn Anfoddhaol ac nid oedd yr un yn Ansicr. Mae pedwar o'r chwech wedi bod yn destun camau dilynol, y mae tri ohonynt wedi arwain at farn archwilio fwy ffafriol. Nid yw dau adroddiad wedi bod yn destun camau dilynol eto. Mewn perthynas â'r Contractiwr Arlwygo a Ffefrir, nid oedd hyn wedi'i nodi eto gan nad oedd yr ysgol wedi ymrwymo i gontract newydd eto.
- Yn 2018-19, roedd 48 o farnau archwilio wedi'u cyhoeddi; barnwyd bod deg yn Anfoddhaol ac un yn Ansicr. Aethpwyd ar drywydd chwe archwiliad, gan arwain at farn fwy ffafriol. Dangoswyd y barnau sydd i ddod yn y tabl. Roedd Lwfansau Mabwysiadu yn destun camau dilynol yn y flwyddyn ariannol gyfredol hon. Roedd y Portffolio Eiddo Masnachol a Diwydiannol yn Anfoddhaol yn wreiddiol, a chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Mawrth 2021, gan gynnig barn well o Resymol. Mae Priffyrdd wedi gweld gwell barn o Resymol. Roedd System Olrhain a Defnydd Cerbydau yn Anfoddhaol yn flaenorol; nid yw hyn wedi bod yn destun gweithgarwch dilynol eto gan fod yr adran yn gweithredu system olrhain newydd. Mae Teithiau ac Ymweliadau wedi bod yn destun camau dilynol ac mae'r Pwyllgor eisoes wedi galw'r Pennaeth Gwasanaeth i mewn, a roddodd sicrwydd y byddai pethau'n gwella. Bu oedi yn y gwaith dilynol hwn oherwydd cau ysgolion o ganlyniad i COVID-19 / y pandemig. Roedd Ysgol Gyfun Caerllion yn Anfoddhaol ac, oherwydd COVID-19, nid aethpwyd ar drywydd hyn ar 30 Medi 2021. Fodd bynnag, cafodd camau dilynol eu cymryd wedyn a byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- Yn 2019-20, roedd 32 o farnau archwilio wedi'u cyhoeddi; barnwyd bod chwech yn Anfoddhaol ac nid oedd yr un ohonynt yn Ansicr. Mae tri archwiliad wedi bod yn destun camau dilynol, gan arwain at farnau mwy ffafriol. Roedd Contractau Tacsî i fod yn destun camau dilynol yn y Chwarter 4 hwn o 2021-22. Roedd gwaith dilynol i fod ar Lywodraethu Corfforaethol yn 2022-23, sef y flwyddyn ariannol nesaf. Mae Perthnasau wedi derbyn dwy farn Anfoddhaol yn olynol a galwyd y Pennaeth Plant a Phobl Ifanc i mewn i roi sicrwydd y byddai pethau'n gwella. Cwblhawyd proses ddilynol, gan wella'r farn i Resymol. Roedd Cyfrif Imprest Plant a Theuluoedd yn wreiddiol yn Anfoddhaol ond mae'r adroddiad terfynol, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021, yn cynnig barn well, sef Rhesymol. Roedd gan Gymorth Cerdd Gwent adroddiad Anfoddhaol ac mae trafodaethau wedi bod yn mynd rhagddynt gyda'u rheolwr gwasanaeth. Ni chynhaliwyd apwyntiad dilynol ond rhoddwyd cyngor a byddai archwiliad dilynol yn cael ei gwblhau ar ôl COVID-19.
- Yn 2020-21, roedd 29 o farnau archwilio wedi'u cyhoeddi; barnwyd bod un yn Anfoddhaol ac ni farnwyd bod yr un yn Ansicr.
- Yn 2021-22, hyd at fis Medi 2021, mae naw barn archwilio wedi'u cyhoeddi; ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau archwilio gyda barn archwilio Anfoddhaol neu Ansicr.

- Mae gan reolwyr ymrwymiad i wneud y newidiadau a awgrymwyd, ac mae'r rheolwyr wedi cyflwyno eu camau rheoli eu hunain i fynd i'r afael â'u materion a mater i'r rheolwyr gweithredol oedd symud hyn ymlaen.

Cwestiynau:

Dywedodd y Cyngorydd Giles ei bod yn ymddangos bod popeth yn eithaf manwl ac yn effeithlon iawn. Dywedodd fod rhai safbwyntiau yn gyfarwydd, a rhai yn annisgwyl. Nododd y Cyngorydd Giles hefyd fod llawer o agweddau COVID-19 a gofynnodd a oedd unrhyw enghreifftiau i egluro sut yr effeithiwyd ar wasanaethau.

Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol mai'r prif feysydd archwilio yr effeithiwyd arnynt oedd ein hysgolion a methu â chynnal ymweliadau safle oherwydd cyfyngiadau COVID-19 a chau ysgolion. Byddai'r tîm archwilio yn gweithio gydag ysgolion a phenaethiaid, a byddai ganddynt hunanasesiad risg rheoledig i'w anfon atynt i sicrhau bod rheolaethau digonol ar waith. Gyda meysydd gwasanaeth eraill, roedd y ffocws ar ddarpariaeth rheng flaen yn ystod y pandemig yn hytrach na gwaith archwilio, a gydnabuwyd.

Gwnaeth y Cyngorydd Hourahine sylw ar y daflen grynodedb, a oedd yn crybwyll barn archwilio, gan fod sôn am hyn o'r blaen. Gofynnodd y Cyngorydd Hourahine am i'r tablau crynodeb nodi pryd y gallai'r tîm ymweld nesaf gan y byddai hyn yn ddefnyddiol, e.e. barn 2018-2019.

Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol y byddai'n ystyried hyn a dywedodd fod yr wybodaeth wedi'i chynnwys yn y tablau, a'i bod yn dibynnu ar ba bryd y byddai'r dasg yn ymddangos ar y cylch archwilio wrth i risgiau eraill ddod i'r amlwg, a allai gael blaenoriaeth. Mewn perthynas â'r camau dilynol i adroddiad anffafriol, byddai'r broses ddilynol yn cael ei chwblhau o fewn 12 mis ond weithiau gellid darparu ar gyfer hyn.

Cytunwyd:

Nododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yr adroddiad.

8 Rhaglen Waith

Gofynnodd y Prif Archwilydd Mewnol i'r Siarter Archwilio Mewnol fynd ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 31 Mawrth 2022.

Gofynnodd Archwilio Cymru i Gynllun Archwilio Blynyddol 2022 Archwilio Cymru fynd ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 31 Mawrth 2022.

Dywedodd Archwilio Cymru y gallai ffurf ddrafft o Adroddiad Blynyddol Archwilio Cymru ar Waith Grantiau 2021-22 fod ar gael ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth ond byddai angen cadarnhau hyn.

9 Gwe-ddarlliediad y Pwyllgor

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified